

Asesiad Effaith Integredig

Polisi Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu a Benthg Croth

Cwblhewch y tabl a nodwch a fydd y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol gan y cynnig neu na fydd ganddo unrhyw effaith o gwbl.

Nodweddion Gwarchodedig	Dim	Cadarnhaol	Negyddol	Asesiad:
Oed		✓		Bydd gweithwyr ifanc gyda theuluoedd yn Llais yn cael mynediad ar unwaith at absenoldeb tadolaeth/rhieni heb ofynion gwasanaeth Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol bellach gan fod tebygolrwydd y bydd pobl iau yn cael eu recriwtio yn y dyfodol, yn enwedig wrth i gydweithwyr hŷn adael Llais.
Anabledd		✓		Mae tua 10% o staff Llais yn nodi bod ganddynt anabledd, fodd bynnag, ni wnaeth 33% arall ddatgelu neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud, felly mae'n bosibl bod y ffigur gwirioneddol yn uwch.

				Gall partneriaid anabl sy'n cefnogi rhieni nawr gael mynediad at absenoldeb tadolaeth/rhieni ar unwaith.
Ailbennu rhywedd		✓		Yn cynnwys rhieni neu bartneriaid traws ac anneuaidd, heb unrhyw gyfyngiadau yn seiliedig ar wasanaeth ar eu gallu i gymryd absenoldeb. Yn cefnogi adeiladu teulu yn ystod y cyfnod pontio, mabwysiadu, neu famolaeth dros dro.
Priodas/Partneriaeth Sifil	✓			Mae hawliau diwrnod cyntaf i absenoldeb tadolaeth a rhiant yn berthnasol i bartneriaid/partneriaid sifil, sy'n cefnogi teuluoedd gwaeth beth fo'u statws priodasol.
Beichiogrwydd/Mamolaeth		✓		Cefnogaeth gryfach i famau newydd gan y gall partneriaid gymryd absenoldeb ar unwaith, gan leihau'r ddibyniaeth ar amser adferiad mamol.
Hil		✓		Mae llai na 5% o staff Llais yn uniaethu â grŵp ethnig lleiafrifol. Mae 67% yn uniaethu fel Cymry gwyn, Saesneg, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon, neu Brydeinwyr gwyn. Mae gweithwyr lleiafrifoedd ethnig yn elwa o hawliau diwrnod cyntaf. Mae'r newidiadau hefyd yn lleihau rhwystrau strwythurol i absenoldeb

				teuluol ac absenoldeb salwch drwy gael gwared ar y cyfnod cymhwyso.
Crefydd/cred	✓			Mae diffyg data yn y maes hwn, fodd bynnag, fel nodwedd warchodedig ni nodwyd unrhyw effaith negyddol.
Rhyw		✓		Er bod Llais yn cydnabod nad yw pawb yn uniaethu o fewn y categorïau deuaidd, ystyriwyd rhyw yn nodwedd warchodedig a chredir bod y newidiadau'n dileu rhwystr mawr i gyfranogiad dynion mewn gofal plant cynnar, gan wella cydraddoldeb rhyw. Disgwylir iddo gynyddu'r defnydd ymhlith tadau; mae llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd 32,000 yn fwy o dadau bob blwyddyn yn cael mynediad ar unwaith. [gov.uk]
Cyfeiriadedd Rhywiol		✓		Mae rhieni o'r un rhyw yn cael mynediad cyfartal i absenoldeb diwrnod cyntaf ac SSP, gan gefnogi cydnabyddiaeth deuluol a chydaddoldeb yn y gweithle.
Ystyriaethau penodol i Gymru				
Iechyd		✓		Bydd dileu'r cyfnod cymhwyso yn caniatáu cefnogaeth gynharach i bartneriaid a fydd yn gwella iechyd meddwl mamau a thadau, adferiad ôl-enedigol a lles babanod

Cymdeithasol-Economaidd		✓		Mae hawliau diwrnod cyntaf yn arbennig o fuddiol i weithwyr â chyflog isel ac ansicr (y mae llawer ohonynt yn ifanc, yn anabl neu o grwpiau ethnig lleiafrifol). Mae'r newidiadau'n cefnogi nodau Llywodraeth Cymru ar waith teg a lleihau anghydraddoldebau mewn ieched a chyfoeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Os yw eich cynnig/prosiect yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio/yn helpu i gyflawni'r 7 nod lles, cynhwyswch nhw yma.		✓		Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at: Cymru iachach Cymru fwy cyfartal
Iaith Gymraeg		✓		Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfieithu'n fewnol i'r rhai sy'n well ganddynt ddarllen eu dogfennaeth yn y Gymraeg. Nid oes unrhyw ofynion pellach o dan y safonau ar gyfer y nodwedd hon. Hyd y gwyddom ni nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi nac awgrymu bod defnyddwyr y Gymraeg yn fwy neu'n llai tebygol o fod angen absenoldeb gofal newyddenedigol, fodd bynnag, bydd y polisi

				hwn yn darparu amddiffyniad i'r rhai sy'n dod o dan y grŵp hwn.
Ystyriaethau ychwanegol				
Gofalwyr/Profiad o Ofal neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu	✓			Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau ar y grŵp hwn fel rhan o'r asesiad hwn.
Cynhwysiant/Allgáu Digidol <i>i</i> Cofiwch gynnwys manylion unrhyw un o addewidion y Siarter Cynhwysiant Digidol y bydd eich cynnig/prosiect yn helpu i symud ymlaen.	✓			Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau ar y grŵp hwn fel rhan o'r asesiad hwn. Bydd y polisi hwn ar gael yn fewnol ar ein Mewnrwyd a gall staff ei argraffu os ydynt yn teimlo bod angen iddynt wneud hynny. Mae ein holl staff yn cael gliniaduron i wneud eu gwaith. Cynigir offer digidol i'n gwirfoddolwyr i'w galluogi i gyflawni eu rolau.
Gwledigrwydd	✓			Mae gennym fynediad cyfyngedig at dystiolaeth ynghylch gwledigrwydd a gofal newyddenedigol ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.

Asesiad Cyffredinol o'r effeithiau ar grwpiau penodol

Crynodeb

Mae gan y polisi hwn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar lawer o grwpiau o fewn yr asesiad hwn.

Yn unol â'r newid deddfwriaethol sydd ar ddod ar gymhwyso ar absenoldeb tadolaeth, bydd y newidiadau'n cynnig cefnogaeth gadarnhaol i staff mewn sefyllfa anodd.

Pa gamau sydd wedi'u cymryd/a fydd yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw effaith(au) negyddol posibl ar grwpiau penodol?

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp penodol o fewn yr asesiad hwn.

Iaith Gymraeg

Gweler uchod.

Canlyniad

Mae'r polisi hwn yn unol â'n cyfrifoldebau o ran y Gymraeg.

Diogelu Data

Canlyniad

Nid yw'r polisi hwn yn gofyn am Asesiad Effaith Diogelu Data ar wahân.

Dogfen wedi'i hystyried gan Chris Davies a Rebecca Shand.